PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Is-Gadeirydd), Ann Davies, Paul Keddie, Arwel Roberts a/ac Emrys Wynne (Cadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata (CHO); Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl (CR), Swyddog Iaith Gymraeg (GL) Gweinyddwyr Pwyllgorau (NH (Host) RhTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Carol Holliday a Cheryl Williams.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2024

Croesawodd yr aelodau'r Swyddog Iaith Gymraeg newydd, Gerallt Lyle, i'r cyfarfod ac ymuno â'r Cyngor. Fe'u hysbyswyd ei fod wedi dechrau gweithio i'r Cyngor ym mis Awst. Roedd ganddo gefndir o weithio ym myd addysg, ac i Fenter Iaith Sir Ddinbych, ategodd yr aelodau eu croeso ac yn edrych ymlaen at gydweithio wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.*

5 ADRODDIAD PRIF FFRYDIO'R GYMRAEG YN Y CYNLLUN CORFFORAETHOL 2022-27

Cyflwynodd y Swyddog Iaith Gymraeg, ochr yn ochr â'r Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd, Adroddiad Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg yn y Cynllun Corfforaethol 2022-27 (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r pwyllgor ar sut mae'r cyngor yn sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

Cymreig yn cael eu prif ffrydio drwy chwe thema'r Cynllun Corfforaethol ac i sefydlu ffyrdd o fonitro hyn er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig ar draws y sir.

Rhoddodd y Swyddog Iaith gefndir i'r aelodau ar yr Iaith Gymraeg a'r cynllun corfforaethol. Gyda Chynllun Corfforaethol 2022 i 2027 bellach wedi lleihau o naw i chwe thema a thema'r Iaith Gymraeg a Diwylliant bellach ddim yn thema unigol, mae'n hanfodol sicrhau bod y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn cael eu prif ffrydio i'r chwe thema sy'n weddill.

Cynigiodd swyddogion sut y gallai Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg gynorthwyo i gyflawni prif ffrydio'r Gymraeg drwy'r chwe thema sef –

- Mae Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn cymryd rôl arweiniol wrth ddarparu llywodraethu a throsolwg o ddangosyddion a gweithgarwch sy'n ymwneud â'r Gymraeg a diwylliant i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol, gyda'r nod bod y gwaith monitro hwn yn cyd-fynd â gwaith y Pwyllgor o fonitro ac adrodd ar Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor Sir 2023-28.
- Dylai Pwyllgor Llywio'r Gymraeg fod yn fodlon y manteisir ar bob cyfle rhesymol i brif ffrydio'r Gymraeg a'i diwylliant i bob thema o'r Cynllun Corfforaethol.
- Dylai'r Pwyllgor sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn blaenoriaethu dangosyddion a gweithgareddau allweddol. Mae fframweithiau rheoli perfformiad manwl a llawnach ar waith ar gyfer Strategaeth y Gymraeg 2023-28 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Gallai Pwyllgor Llywio Cymru gynnwys yn ei gylch gorchwyl ddiben ychwanegol i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' i gefnogi grwpiau i wella'r iaith Gymraeg a'r elfennau diwylliannol o fewn yr Asesiadau o'r Effaith ar Les sy'n cael eu datblygu. Mae'r byrddau sydd yn eu lle i gyflawni themâu'r Cynllun Corfforaethol yn sicrhau bod yr Iaith Gymraeg a Diwylliant yn rhan greiddiol o'u meddylfryd a'u bod yn gallu dangos sut y manteisir ar gyfleoedd i brif ffrydio'r Gymraeg.

Yn dilyn cyflwyniad gan swyddogion, trafododd yr aelodau'r canlynol ymhellach –

- Tynnodd yr aelodau sylw at y pwynt ynghylch byrddau yn ymwneud â'r cynllun corfforaethol; holodd y pwyllgor faint o fyrddau oedd yn cael eu cynnal, ac roedd swyddogion yn ymwybodol nad oedd gan bob thema cynllun corfforaethol fwrdd cysylltiedig. Fodd bynnag, cytunodd swyddogion ac aelodau nad oedd asesiadau llesiant niwtral o reidrwydd yn dda. Byddai cael asesiadau sy'n peri i swyddogion ac aelodau drafod effeithiau ar y Gymraeg yn naturiol yn creu trafodaethau am y Gymraeg. Awgrymodd yr aelodau y dylid cael enghreifftiau hŷn o asesiadau llesiant i weld sut y gallai'r pwyllgor gryfhau'r geiriad ar yr effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymru.

- Holodd yr aelodau hefyd a allent gael rhestr o'r byrddau sy'n bodoli a gweld sut y gallent eu cefnogi i symud ymlaen. Byddai swyddogion yn ymchwilio i'r mater ac yn cael y wybodaeth i'w rhannu os yn bosibl.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn trafod a chytuno ar yr awgrymiadau ar gyfer prif ffrydio'r Gymraeg ar draws themâu'r Cynllun*

Corfforaethol a chytuno ar rôl y Pwyllgor Llywio yn llywodraethu a monitro'r gwaith hwn.

6 CATEGOREIDDIO LEFELAU IAITH YMHLITH STAFF

Cyflwynodd y Swyddog Iaith Gymraeg y diweddariadau Categoreiddio Lefelau Iaith Ymhlith Staff.

Hysbyswyd yr aelodau bod adnoddau dynol (AD) wedi bod yn gweithio ar gategoreiddio lefelau iaith Gymraeg aelodau staff. Roedd y Swyddog Iaith Gymraeg wedi cyfarfod ag AD ers bod yn ei swydd i weld sut orau i gategoreiddio'r lefelau ledled y Cyngor o lefelau 1-5. Roedd y Swyddog Iaith Gymraeg wedi helpu AD gyda'r lefelau, a byddai gwaith yn parhau gyda'r holl swyddi a oedd yn bodoli eisoes yn y Cyngor i adlewyrchu galluoedd y staff yn y rolau hynny.

Holodd yr aelodau a oedd unrhyw wybodaeth am staff yn dysgu Cymraeg, gan fod nifer uchel o staff yn dysgu Cymraeg. Teimlai'r aelodau pe bai'r wybodaeth yn cael ei chadw, y byddai'n fuddiol ceisio eu cynorthwyo i gynyddu eu sgiliau. Hysbyswyd y pwyllgor fod AD yn monitro staff sy'n dysgu'r Gymraeg.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod hyder yn elfen sylweddol o ddysgu'r iaith a theimlai fod Cyngor Sir Ddinbych yn dda am fabwysiadu amgylchedd sy'n rhoi hyder i bobl yn eu galluoedd.

PENDERFYNWYD *bod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg yn nodi'r diweddariad ar Gategoreiddio Lefelau Iaith Ymhlith Staff.*

7 ER GWYBODAETH - CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gwybodaeth i'r aelodau yn amlygu gwaith y Swyddog Datblygu Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, na allai fynychu'r cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes wrth y pwyllgor fod yr eitem wedi'i thrafod mewn pwyllgor craffu Perfformiad yn ddiweddar, a chefnogodd yr aelodau'r adroddiad.

Roedd y pwyllgor am ddiolch i Swyddog Datblygu Cynllun Strategol Addysg Gymraeg a'r Pennaeth Addysg am eu gwaith parhaus ar y mater.

PENDERFYNWYD *nodi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg*.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd rhaglen waith y Pwyllgor i'r dyfodol i'w hystyried.

Holodd yr Aelodau a allent gael y wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth iaith Gymraeg; roedd swyddogion yn hapus i gylchredeg e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf neu drefnu cyfarfod tîm i drafod y mater ymhellach.

Awgrymodd yr Aelodau, yn dilyn y drafodaeth yn ystod yr eitem Prif Ffrydio'r Gymraeg, y gellid trafod ac adolygu enghreifftiau o asesiadau effaith Llesiant mewn cyfarfod yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, derbyn a nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor*.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:50 am